## YR ATODLEN

# RHAN I

## Y GOFYNION SYDD I'W BODLONI GAN GYFLEUSTER YNYSU AR GYFER BRIDIO

**1.** Rhaid defnyddio'r cyfleuster ynysu ond er mwyn ynysu'r anifeiliaid sydd ynddo oddi wrth bob anifail arall ar y safle y mae'r cyfleuster wedi'i leoli arNo.

**2.** Rhaid i'r cyfleuster ynysu fod wedi'i ddylunio er mwyn sicrhau bod gwahaniad ffisgeol rhwng yr anifeiliaid sy'n cael eu cadw ynddo ac unrhyw anifeiliaid eraill ar y safle neu unrhyw safle cyffiniol arall ac yn benodol rhaid i'r cyfleuster gynnwys—

(a) adeilad ar wahân nad yw'n cael ei ddefnyddio ond er mwyn ynysu anifeiliaid oddi wrth unrhyw anifeiliaid eraill sy'n cael eu cadw ar y safle hefyd;

(b) rhan o adeilad sy'n cael ei ddefnyddio i'r perwyl hwnnw ac sydd wedi'i wahanu o'r llawr i'r nenfwd oddi wrth unrhyw ran arall o'r adeilad â phared solet neu adeiladwaith dros dro digonol (y caniateir ei ffurfio, yn ddarostyngedig i baragraff 3, o fêls gwellt) sydd wedi'i ddylunio yn y naill achos a'r llall i sicrhau—

(i) na fydd unrhyw lif aer sylweddol rhwng y cyfleuster ynysu ar gyfer bridio ac unrhyw ran arall o'r adeilad; a

(ii) na fydd unrhyw bosibilrwydd y bydd elifiant, tail nac unrhyw ollyngiad arall yn diferu drwy neu o dan y pared neu adeiladwaith dros dro arall; neu

(c) man pori ar wahân wedi'i amgylchynu â ffens gwrth-stoc ddiogel (y caniateir iddi gynnwys ffens drydan) neu atalfa arall y mae o leiaf 50 metr o bellter rhyngddi ac unrhyw fan pori neu adeilad arall lle mae anifeiliaid yn cael eu pori neu eu cadw ynghyd â chodi ffensys gwrth-stoc diogel pellach neu atalfeydd eraill mewn mannau eraill ar y safle os yw hynny'n angenrheidiol i atal yr anifeiliaid eraill hynny rhag dod o fewn 50 metr i'r cyfleuster ynysu.

**3.** Pan fydd adeiladwaith dros dro sydd wedi'i ffurfio o fêls gwellt yn cael ei ddefnyddio i wahanu â phared ran o adeilad sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfleuster ynysu oddi wrth unrhyw ran arall o'r adeilad nad yw'n cael ei ddefnyddio felly, rhaid i'r pared fod yn un metr o drwch o leiaf.

**4.** Pan fydd adeilad neu ran o adeilad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cyfleuster ynysu, ni chaniateir i unrhyw anifail nad yw'n cael ei gadw yn y cyfleuster ddod o fewn pum metr i unrhyw ddrws neu fynedfa arall i'r cyfleuster ar unrhyw adeg.

**5.** Rhaid i bob drws sy'n fynedfa i unrhyw adeilad neu ran o adeilad sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y cyfleuster ynysu gael ei gadw ar gau ar bob adeg ac eithrio os yw'n cael ei ddefnyddio gan bersonau i fynd i mewn i'r cyfleuster neu i ymadael ag ef neu pan fydd anifeiliaid yn cael eu symud i mewn i'r cyfleuster neu allan ohoNo.

**6.** Rhaid i loriau a waliau unrhyw adeilad neu ran o adeilad sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y cyfleuster ynysu fod yn gyflawn ac mewn cyflwr digon da i'w gwneud yn bosibl ei lanhau a'i ddiheintio'n drylwyr a rhaid iddynt gael eu cadw a'u cynnal mewn cyflwr felly bob amser.

**7.** Pan fydd adeilad neu ran o adeilad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cyfleuster ynysu, bydd rhaid gwneud y naill neu'r llall o'r canlynol —

(a) rhaid dylunio a chynnal yr adeilad yn y fath fodd ag i sicrhau y gellir cadw unrhyw elifiant, tail neu ollyngiadau eraill o'r anifeiliaid sy'n cael eu lletya yno yn yr adeilad tan y bydd pob anifail wedi'i symud o'r cyfleuster; neu

(b) rhaid gwneud trefniadau digonol i sicrhau na fydd unrhyw ollyngiadau yn dod i gysylltiad ag unrhyw anifail nad yw'n cael ei letya yn y cyfleuster ar unrhyw adeg.

**8.** Rhaid darparu ar gyfer y cyfleuster ynysu gyfleuster llwytho a dadlwytho un-pwrpas y mae'n rhaid ei lanhau a'i ddiheintio'n drylwyr gan ddefnyddio diheintydd a gymeradwyir ar ôl pob tro y mae'r cyfleuster llwytho a dadlwytho yn cael ei ddefnyddio.

**9.** Rhaid i feddiannydd y safle y mae'r cyfleuster ynysu wedi'i leoli ynddo sicrhau—

(a) bod dillad ac esgidiau sy'n gorchuddio'r holl gorff yn cael eu darparu i'w defnyddio gan unrhyw un sy'n gweithio yn y cyfleuster ac ar gyfer unrhyw bersonau eraill sy'n mynd i mewn i'r cyfleuster; a

(b) bod y dillad hynny yn cael eu golchi'n drylwyr cyn caniatáu iddynt ddod i gysylltiad ag unrhyw anifeiliaid nad ydynt yn y cyfleuster neu gael eu defnyddio yn unman heblaw yn y cyfleuster a bod yr esgidiau hynny yn cael eu diheintio'n drylwyr gan unrhyw berson sy'n eu gwisgo wrth ymadael â'r cyfleuster.

**10.** Rhaid i feddiannydd y safle lle mae'r cyfleuster ynysu—

(a) cynnal—

(i) baddon traed sy'n cynnwys diheintydd a gymeradwyir; a

(ii) cyfleusterau golchi dwylo,

mewn mannau cyfleus wrth bob mynedfa i'r cyfleuster a phob allanfa ohono a rhaid iddo adnewyddu'r diheintydd yn y baddon traed bob dydd neu'n amlach na hynny yn ôl yr angen er mwyn cadw toddiant glân; a

(b) sicrhau bod y baddon traed a'r cyfleusterau golchi dwylo yn cael eu defnyddio gan bawb sy'n mynd i mewn i'r cyfleuster ac yn ymadael ag ef.

**11.** Ni chaniateir symud o'r cyfleuster unrhyw fêls gwellt, sy'n cael eu defnyddio i ffurfio parwydydd yn y cyfleuster ynysu nac unrhyw ddeunyddiau porthi, porthiant neu sarn sydd yn eu lle yno ac sydd heb eu defnyddio, nes y bydd y llwyth hwnnw o anifeiliaid wedi ymadael â'r cyfleuster.

**12.** Ni chaniateir symud unrhyw gorlannau, clwydi nac offer arall sydd yn eu lle pan fydd unrhyw lwyth anifeiliaid yn mynd i mewn i'r cyfleuster ynysu o'r cyfleuster nes y bydd y llwyth hwnnw wedi ymadael â'r cyfleuster oni bai eu bod wedi'u glanhau a'u diheintio'n drylwyr gyntaf.

**13.** Cyn bod unrhyw gerbyd sydd wedi'i ddefnyddio at unrhyw ddiben yn y cyfleuster ynysu yn cael ei symud allan o'r cyfleuster, rhaid iddo gael ei lanhau a'i ddiheintio'n drylwyr yn unol â gofynion atodlen 1 i Orchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) 2001(**1**) ac yn ychwanegol, wrth yr allanfa i'r cyfleuster, rhaid glanhau a diheintio cylchedd cyfan teiars unrhyw gerbyd o'r fath (gan gynnwys eu gwadnau) ynghyd a'i fwâu olwynion, ei gardiau olwynion, a'i labedi llaid.

**14.** Mae cyfleusterau digonol ar gael naill o fewn y cyfleuster ynysu neu'n union y tu allan iddo i'r anifeiliaid gael eu harolygu neu eu harchwilio yn unol â gofynion paragraffau (3)(e)(vi) or (3)(f)(v) o erthygl 3 heb fod yr anifeiliaid hynny yn dod o fewn pum metr i unrhyw anifeiliaid eraill nad ydynt yn cael eu cadw yn y cyfleuster ynysu.

**15.** Rhaid i feddiannydd y safle lle mae'r cyfleuster ynysu wedi'i leoli sicrhau bod cofnod ysgrifenedig yn cael ei gadw ac yn cael ei roi ar gael i arolygydd os bydd yn gofyn amdano a bod y cofnod hwnnw yn dangos dyddiadau pob symudiad anifeiliaid i mewn i'r cyfleuster ynysu ac allan ohono ynghyd â manylion —

(a) Marc S neu rifau adnabod unigol unrhyw hyrddod a symudwyd felly;

(b) Marc S neu rifau adnabod unigol, os o gwbl, unrhyw famogiaid a symudwyd felly, neu os nad oes unrhyw dag S na rhif adnabod unigol wedi'i ddodi ar unrhyw famog, manylion y marc paent a ddodwyd arni yn unol ag erthygl 3(3)(e)(iii)(bb);

(**1**) S.I. 2001/2662.

(c) unrhyw farc adnabod neu dag a ddodwyd ar unrhyw ddafad yn unol â Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002;

(ch) manylion unrhyw farciau neu dagiau a ddodwyd ar unrhyw wartheg a symudwyd felly yn unol â'r Rheoliadau Adnabod Gwartheg; a

(d) manylion rhifau lot unrhyw anifeiliaid a brynwyd mewn marchnad.

**16.** Ni chaniateir symud unrhyw anifail allan o'r cyfleuster ynysu yn ystod y cyfnod y mae'n ofynnol ei gadw yno yn unol ag is-baragraffau (3)(e) neu (f) o erthygl 3 oni bai—

(a) ei fod yn cael ei symud, yn unol â thrwydded a ddyroddwyd gan arolygydd mifeddygol, i gyfleuster ynysu arall ar yr un safle y mae'r holl ofynion a bennir yn erthygl 3(8) yn cael eu bodloni a'u dilyn mewn perthynas ag ef;

(b) ei fod yn fuwch sy'n llaetha ac nad yw'n rhesymol ymarferol ei godro yn y cyfleuster ynysu ac sy'n cael ei symud i barlwr godro i gael ei godro yn unol â'r amodau a bennir ym mharagraff 17; neu

(c) bod hyn at ddibenion arolygu neu archwilio yn unol â pharagraffau (3)(e)(vi) or (3)(f)(v) o erthygl 3 ac os na chaniateir i unrhyw anifail nad yw'n cael ei gadw yn y cyfleuster ynysu ddod o fewn pum metr i'r anifail sy'm cael ei arolygu a'i archwilio felly.

**17.** Yr amodau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 16(b) yw—

(a) bod rhaid dod ag unrhyw fuwch yr eir â hi i'r parlwr godro o'r cyfleuster ynysu i'r parlwr hwnnw ar ôl i'r sesiwn godro ar gyfer buchod nad ydynt o'r cyfleuster gael ei gwblhau ac ar ôl i'r buchod eraill hynny gael eu dychwelyd i'w llety neu i'w man pori;

(b) bod pellter gwahanu o bum metr yn cael ei gadw bob amser rhwng y fuwch o'r cyfleuster ynysu ac unrhyw anifail arall nad yw'n cael ei gadw yn y cyfleuster ynysu hwnnw;

(c) bod rhaid golchi'r parlwr godro ac unrhyw iard neu fan gasglu sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag ef yn drylwyr ar ôl i'r fuwch o'r cyfleuster ynysu ddychwelyd yno a chyn y caniateir i unrhyw anifeiliaid eraill fynd i mewn i'r parlwr, i'r iard neu i'r man casglu hwnnw;

(ch) yn union ar ôl iddynt gael eu defnyddio gan y fuwch o'r cyfleuster ynysu a chyn iddynt gael eu defnyddio ar gyfer unrhyw fuwch nad yw o'r cyfleuster hwnnw rhaid i unrhyw offer a ddefnyddiwyd ar gyfer godro, unrhyw gyfarpar godro mecanyddol ac unrhyw gynwysyddion sy'n dod i gysylltiad â llaeth gael eu glanhau a'u rinsio â dŵ r yfadwy; a

(d) rhaid dychwelyd unrhyw fuwch y daethpwyd â hi i'r parlwr godro o'r cyfleuster i'w godro i'r cyfleuster yn union ar ôl cwblhau'r godro.